

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod 12 Mawrth 2015 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

Presennol: D Gwyndaf (Cadeirydd), Aled Roberts, Dewi Jones, Dafydd Hughes, Colin Jones a'r Cynghorydd Sir Wyn Jones.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Eifion Davies, Cyril Lewis ac Eryl Owain.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod o'r Cyngor ar 8 Ionawr 2015 fel rhai cywir.

Trafodwyd y materion canlynol:

Maes Parcio'r Neuadd Goffa – Croesawyd Clare Roberts i'r cyfarfod, yn cynrychioli ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa. Cafwyd trafodaeth ar sut i wella cyfleusterau parcio wrth y Neuadd Goffa (Yr hen Ysgol) a phwy oedd yn berchen ar y darn tir rhwng yr adeilad a'r afon. Penderfynwyd trafod y mater ymhellach wedi ymholi mwy i berchnogaeth y tir.

Toiledau Cyhoeddus – Parhau i ddisgwyl am ymateb gan Gyngor Sir Conwy. Derbyniwyd dyfynbris y byddai'n costio £129 yn ychwanegol i'r Cyngor Cymuned yswirio'r adeilad.

Gwaharddiadau Parcio – Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir ddangos yn union ble y bwriedir gosod llinellau melyn, er mwyn atal camddealltwriaeth yn lleol.

Meddygfa Betws-y-coed – Derbyniwyd llythyr gan y feddygfa yn egluro na fyddent, oherwydd prysurdeb, yn gallu trefnu cyfarfod tan ddiwedd Ebrill ac y byddent yn cysylltu eto i gynnig dyddiad.

Parcio ger yr Ysgol – Gofynnwyd i'r Cynghorydd Wyn Jones drafod y sefyllfa ymhellach gyda swyddogion y cyngor sir.

Gohebiaeth – Derbyniwyd llythyr yn tynnu sylw at y sbwriel ger yr hen Gwt Hers. Dywedodd Dafydd Gwyndaf y byddai'n cael gair efo'r person blaenorol oedd yn rhentu'r adeilad.

Derbyniwyd llythyr gan Aled Owen yn amlinellu syniad i greu *llwybr llechi* yn cychwyn o Bort Penrhyn, trwy Fethesda, Rhyd-ddu, Blaenau Ffestiniog, Penmachno ac yn ôl i Fethesda. Penderfynwyd datgan cefnogaeth i'r cynllun ond na fyddai'n bosib, oherwydd cyfyngiadau ariannol, i gyfrannu tuag ato. Gofynnwydd i'r cadeirydd drafod yr ymateb gydag Aled Owen.

Sgipiau Cymunedol – penderfynwyd trefnu sgipiau cymunedol ar gyfer Cwm a Phenmachno.

Un Llais Cymru – Penderfynwyd ailymaelodi am dâl o £117.00.

Cais Cynllunio – Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i gais i addasu adeilad ffarm yn Dylasau Uchaf.

Ffyrdd – y clerc i drefnu cyfarfod efo Kevin Jones o Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i drafod amryw faterion.